Cigfrain yn dod â bwyd i Elias

1 Brenhinoedd 17: 1-9

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	1 Brenhinoedd 17: 1-9		
1	Roedd y Brenin Ahab a'i wraig Jesebel yn teyrnasu yn Israel. Roedden nhw'n ddrwg ac yn arwain y bobl i addoli duwiau ffals. Roedd Ahab wedi gwneud mwy i wylltio'r ARGLWYDD, Duw Israel, nac unrhyw frenin o'i flaen.		
2	Cafodd rhai o broffwydi'r Arglwydd eu lladd ac fe guddiodd nifer o'r proffwydi eraill rhag i Ahab eu lladd hwythau. Proffwydi Baal oedd yn arwain yr addoliad yn Israel. Roedd y bobl yn credu fod gan Baal y gallu i reoli'r tywydd ac i sicrhau cynaeafau da.		
3	Roedd Elias, o Tishbe yn Gilead, yn un o broffwydi'r Arglwydd. Rhybuddiodd y bobl yn erbyn addoli Baal. Dwedodd wrthyn nhw i droi yn ôl at Dduw. Roedd gan yr Arglwydd neges arbennig i'r Brenin Ahab.		

4	Dyma Elias yn dweud wrth Ahab, “Mor sicr â bod yr ARGLWYDD, Duw Israel, yn fyw, fydd yna ddim gwlith na glaw y blynyddoedd nesaf yma nes i mi ddweud yn wahanol.”	
5	Wedyn dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Elias, “Dos i ffwrdd i'r dwyrain. Dos i guddio wrth ymyl Nant Cerith yr ochr arall i'r Afon Iorddonen."	
6	"Cei ddŵr i'w yfed o'r nant, a dw i wedi dweud wrth y cigfrain am ddod â bwyd i ti yno," meddai'r Arglwydd.	
7	Dyma Elias yn gwneud fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud, a mynd i fyw wrth Nant Cerith yr ochr arall i'r Afon Iorddonen.	
8	Roedd cigfrain yn dod â bara a chig iddo bob bore a gyda'r nos, ac roedd yn yfed dŵr o'r nant.	

9	Yn union fel roedd Elias wedi dweud, doedd na ddim gwlith na glaw. Roedd y bobl yn galw ar Baal i'w helpu nhw, ond sychodd y tir a methodd y cynaeafau.	
10	Roedd y cigfrain yn dod a bwyd i Elias bob bore a nos ac roedd yn yfed o ddŵr y nant.	
11	Aeth blynyddoedd heibio heb na gwlith na glaw. Roedd y bobl a'r anifeiliaid yn dioddef. Roedd yna newyn yn y wlad. Doedd Baal ddim yn gallu newid y sefyllfa.	
12	Ond ar ôl peth amser dyma'r nant yn sychu am ei bod hi heb fwrw glaw yn y wlad o gwbl.	
13	A dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrtho, “Cod, a dos i fyw i Sareffath yn ardal Sidon.	

14	Dw i wedi dweud wrth wraig weddw sy'n byw yno i roi bwyd i ti.”	
15	Gwaethygodd y sefyllfa yn Israel. Doedd 'na ddim gwlith na glaw am dair mlynedd. Roedd Ahab yn chwilio am Elias ond ni ddaeth o hyd iddo.	
16	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	